

Helo Siôn Corn

Ti'n ocê? Yn yfed dy de? Gyda mins pei? Ar y cei? Ti wedi blino ar ôl y cyffro?
Dwi'n hoffi rapio a thi'n hoffi pacio! Dwi'n methu stopio odli tra bod ti'n cysgu, O!
plis Siôn Corn....

O dyna'r pwl yna wedi pasio eto – diolch byth ...Wel, Siôn Corn annwyl,
mae gen i broblem ers i mi gael fy ngwneud yn Fardd Plant Cymru fis Mai
diwethaf – rydw i wedi bod yn odli'n ddi-baid. Rwyf wedi mynd yn debyg iawn i
Rapsgaliwn ac mae rhai disgyblion yn meddwi mai fi yw Rapsgaliwn. Er mwyn
stopio odli mae'n rhaid i mi dynnu gwallt fy mhen ac fel rwyt ti'n gweld Siôn
Corn, does dim llawer ar ôl!

Dim odliadur sydd ar fy rhestr i ond dadodliadur. Ydi e'n bosib i mi ei gael
ar ffurf 'ap' unwaith fydd y sesiwn gyda'r plant ar ben? Y cyfan fydd yn rhaid i mi
wneud yw gwasgu botwm neu annwyl Aneirin fydd heb flewyn ar ei gopa yn
Steddfod Bala! Ydi e'n bosib i'w gludo i stiwdio *Heno* cyn i mi ffrwydro? 'Special
Delivery' brys cyn Dolig, plis!

Gwell cofio am blant Cymru bob un o'r bron – Siôn Corn!

I bob un wan jac rhowch yn ei bac odliadur a geiriadur.

Dyw plant Sir Fôn, maddeuwch mod i'n sôn – yn gwrando fawr ddim ar ei
hathro llym, felly clustiau newydd iddyn nhw, plis! Dyw plant Eryri yn methu
stopio gweiddi, felly tabledi tawelu iddyn nhw. Mae plant cylch Meirion yn llawn
o ddwli gwirion, felly bathodyn 'parcher Aneirin' iddyn nhw. Mae plant
Caerfyrddin fel haid o wenyn – yn gweithio'n sydyn, felly syrpreis neis iddyn
nhw. Mae plant Pontypridd a Chaerdydd yn yfed sudd cyn odli'n rhydd, a hynny
bob dydd. Dyw jiws ddim iws nac yn ecsciws i fynd i'r tŷ bach, felly poti'n reit
handi iddyn nhw. Mae plant Dyffryn Clwyd yn chwarae pêl-rwyd neu'n bwyta
bwyd, felly bathodyn 'parcher Aneirin' iddyn nhw hefyd. Dyw plant Ceredigion
ddim yn dod ar eu hunion, felly oriawr fawr i ffitio cawr iddyn nhw, plis. Mae
plant Pen Llŷn yn sobor o flin ar fore dydd Llun. Gwên hwyliog iddyn nhw ac yn
enwedig i Aneirin Karadog. Mae plant mwyn Maldwyn yn ddi-gŵyn ac yn feirdd
o fri – rhowch iddynt anrhegion lu! Mm, ond dim llyfr Eurig Salisbury – dim
angen gormod o ffws na CD Dewi Pws. Dim llyfr Tudur Dylan na chân 'Gŵyl y
Baban' gan Caryl yn yr hosan.

Dyna ni – fy rhestr yn gyfan – o ie, ffrâm amryliw i fynd o gwmpas cerdd
glodwiw plant hyfryd Cymru. Ffrâm cyn uchod â'r Wyddfa achos hon fydd y
gerdd hwya yn y byd i gyd yn grwn. Gwaeddw'n HWRÊ dros y lle!

Joia'r mins pei
a'r sieri, glei!
Gan Aneirin Karadog,
Y bardd godidog.